

Adroddiad yn Ymateb i Achosion Busnes Prifysgol Bangor

Gan Bwyllgor Gwaith UMCB
Chwefror 2019

Cyflwyniad

Yn dilyn cyflwyno'r achosion busnes er mwyn cyrraedd cynaliadwyedd ariannol gan Brifysgol Bangor, dyma adroddiad wedi'i lunio gan Bwyllgor Gwaith Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB). Mae UMCB wedi mynd ati i sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael eu mynegi yn ystod yr ymarferiad hwn trwy amryw o ddulliau.

Pwrpas ymarferiad UMCB oedd i wrando ar fyfyrwyr gan fesur yr effaith ragdybiedig a gaiff yr achosion busnes ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

Datganiad Agoriadol Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor

Cydnabyddwn fel Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor yr angen i sicrhau arbedion ariannol ac rydym yn deall y bydd hi'n amhosib gwarchod y ddarpariaeth Gymraeg yn gyfan gwbwl. Er hyn, anogwn y Brifysgol i gyflawni ei blaenoriaeth strategol sy'n ymwneud â'r Gymraeg hyd eithaf ei gallu. Mae'n anorfod bod toriadau'n mynd i ddiwydd yn y misoedd nesaf a gofynnwn i'r Brifysgol beidio a defnyddio'r sefyllfa fel arf i ymosod ar y ddarpariaeth Gymraeg. Mae UMCB hefyd yn cydnabod fod y Brifysgol wedi gwneud camgymeriadau dros y blynyddoedd gyda rhagdybiaethau gor-hyderus o ran niferoedd recriwtio a methiant y Brifysgol i ddarparu gweledigaeth a strategaeth hir-dymor. Ond, er gwaethaf hyn i gyd, mae UMCB yn pwysleisio ein bod ni'n parhau i fod yn awyddus i gyd-weithio gyda'r Brifysgol er ei lles ei hun. Prifysgol yw hon sy'n cyfrannu gymaint i'r Gymru gyfoes, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Yng ngoleuni hynny, os fydd y Brifysgol yn rhoi chwarae teg i'r Gymraeg, bydd UMCB yn ddiffuant ei gymorth. Dymunwn weld y Gymraeg yn derbyn y parch a'r buddsoddiad mae'n ei haeddu yn ei gwlad ei hun. Nid baich na gorfodaeth dylai'r Gymraeg fod ar ein Prifysgol, ond yn hytrach dymuniad a dyletswydd.

Cyn gwneud unrhyw benderfyniad, yn unol ag adroddiad Undeb Bangor, cytuna UMCB y dylid ystyried y canlynol o ddifri:

- Adolygu cyflogau uchaf y sefydliad, yn arbennig y rhai hynny dros £100,000 y flwyddyn
- Adolygu'r system dreuliau i sicrhau bod staff yn eu ddefnyddio'n gyfrifol.
- Ystyried tynged tŷ yr Is-ganghellor
- Adolygu strategaeth farchnata'r Brifysgol

Yn ogystal, cred UMCB y dylai'r strategaeth farchnata fod yn pwysleisio ar bwysigrwydd y farchnad leol. Gyda lleihad yn niferoedd myfyrwyr y Brifysgol, mae nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu. Dyma ddarn o dystiolaeth sy'n profi gwerth mewn gwarchod y ddarpariaeth Gymraeg.

Ond, yn anad dim, mae'n rhaid i'r Brifysgol gofio'r canlynol,

- Yr addewid a roddwyd gan y Brifysgol i'r Cyngor ynghylch cadw darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Polisi Iaith y Brifysgol, er gwybodaeth,
 - 3. *Y bydd ein myfyrwyr yn cael cyfleoedd i astudio eu meysydd pwnc drwy'r Gymraeg ac yn derbyn cefnogaeth i wneud hynny.*
 - 6. *Y bydd ein polisiau a systemau recriwtio staff yn sicrhau bod capasiti dwyieithog y Brifysgol yn cael ei gynnal ar draws ystod a graddfeydd swyddi.*

- 8. *Y bydd ein polisiau, ein cynlluniau a'n prosiectau yn ystyried yn llawn sut i roi lle canolog a naturiol i'r Gymraeg heb danseilio statws na defnydd o'r Gymraeg.*⁷

- Y papur a gyflwynwyd gan Bwyllgor dwyieithrwydd y Cyngor
- Safonau'r Gymraeg
- Blaenoriaeth Strategol Rhif 4 y Brifysgol – Yr Iaith Gymraeg, diwylliant a'r Gymuned

O ganlyniad i hyn, mae dyletswydd ar y Brifysgol i beidio mynd yn groes i'w haddewidion a'i pholisiau gan sicrhau bod myfyrwyr Cymraeg yn cael y profiad gorau posib.

Wrth edrych ar hyn gyda phen 'busnes', mewn ymgynghoriad gyda myfyrwyr, daeth UMCB i'r casgliad bod manteision ariannol yn perthyn i gadw staff dwyieithog,

- Mae siaradwyr Cymraeg yn gallu gweithio'n hyblyg gyda myfyrwyr Cymraeg a Saesneg, a maent yn gallu darparu gwasanaeth a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nid dysgu yn unig a wnâi staff y Brifysgol ond hefyd cynnig gofal bugeiliol, ymweld ag ysgolion, mynychu dyddiau agored, cydlynu cyfryngau cymdeithasol gwahanol. Rhaid felly ystyried y golled mewn ffordd sy'n efelychu mwy na dysgu'n unig, gallai golli darlithwyr Cymraeg eu hiaith gael effaith negyddol ar hyn.
- Mae staff dwyieithog yn rhannu ewyllys da y Brifysgol ar y cyfngau Cymraeg (y cyfrwng allanol sydd, heb os, yn rhoi'r mwyaf o sylw i'r Brifysgol)
- Gall yr effaith a gaiff hyn ar recriwtio myfyrwyr fod yn ofnadwy. Mae'r Gymraeg yn USP i'r Brifysgol a gwelwn yn ôl yr ystadegau bod y niferoedd yn cynyddu. Mae'n drist nodi trwy gydol yr holl achosion busnes fod yr holl sylw yn cael eu roi ar farchnadoedd amgen. Nid oes unrhyw ymgais wybodus i fynd ati i gynnig syniadau ynghylch recriwtio'n lleol. Er mwyn datblygu man sy'n tyfu yn y Brifysgol, mae'n hanfodol fod y Brifysgol yn cadw'u staff dwyieithog i ymestyn y llwyddiant ymhellach.
- Mae cael awyrgylch Gymraeg (hyd yn oed os nad ydynt yn astudio trwy'r Gymraeg) yn ychwanegu gymaint at brofiad myfyrwyr.

Dyma ddim ond rhai o'r rhesymau 'busnes' a ddaeth yn amlwg o blith myfyrwyr oedd yn pwysleisio nad yw edrych ar niferoedd bob tro am roi'r darlun llawn gan fod yr iaith, o ddydd i ddydd, yn cael eu defnyddio'n fwy na hynny. Mae'n hanfodol bwysig fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r profiad yn gyfartal ym mhob ffordd i'r myfyrwyr di-gymraeg.

Mae'n rhaid hefyd ystyried llwyddiant y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Brifysgol wedi datblygu a chryfhau ei safle fel y Brifysgol arweiniol o ran y Gymraeg ac addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Un wedd yn unig ar hyn ydy'r ffaith fod niferoedd myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg wedi parhau i dyfu'n gyson o 2,153 yn 2014/15 i 2,538 yn 2017/18, a hynny er gwaethaf yr anawsterau cyffredinol y mae'r Brifysgol wedi'u profi wrth recriwtio myfyrwyr cartref. Yn fwy arwyddocaol fyth, mae'r niferoedd sy'n dewis astudio 40 credyd neu fwy o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg (prif feincnod y Cyngor Cyllido a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol) wedi cynyddu o 821 yn 2014/15 i 980 yn 2017/18 – oddeutu hanner y niferoedd yn genedlaethol. Mae'r cryfder hwn hefyd yn faes o ragoriaeth i'r Brifysgol, fel y pwysleisiwyd gan ganmoliaeth y QAA yn ei adolygiad ansawdd diweddar i'r "dwyieithrwydd sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn ym mhob agwedd o fywyd y Brifysgol ac sy'n effeithio'n bositif ar brofiad ei myfyrwyr". Roedd

dwyeithrwydd a chryfder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd yn greiddiol i'r wobr aur a ddyfarnwyd i Fangor yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.

Dyma osod dymuniad craidd myfyrwyr UMCB

1. Mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth (academaidd a bugeiliol) yn gytras o ran ansawdd i'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr di-Gymraeg. Er enghraifft, ni ddylid manteisio ar staff graddfeydd is i gynnal y ddarpariaeth.
2. Dylid gwneud pob ymdrech posib i warchod y ddarpariaeth arbennig sydd ar gael.
3. Dylid cadw at bolisi iaith y Brifysgol heb lastwreiddio unrhyw fodiwlau Cymraeg.
4. Dylid gwneud pob ymdrech posib i warchod credydau presennol sy'n gymwys i ysgoloriaethau neu fwrsariaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
5. Dylid ystyried y Coleg Cymraeg fel prif ran-ddeiliad ac ni ddylid gwneud unrhyw benderfyniadau sy'n peryglu buddsoddiad y Coleg a'r grantiau pynciol sydd dan sylw.
6. Dylid gosod y farchnad leol yn flaenoriaeth i'r strategaeth farchnata.

Bydd UMCB yn parhau i gyfathrebu gyda'r myfyrwyr tu hwnt i'r cyfnod ymgynghori ac yn parhau i adrodd yn ôl i'r Brifysgol. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r rhai hynny o blith swyddogion y sefydliad sydd wedi bod yn barod i drafod y materion hyn o ddifri. Rydym hefyd yn croesawu'r ffordd mae'r Brifysgol wedi bod yn un agored a thryloyw dros y misoedd nesaf.

Nid mater bach yw'r Gymraeg i Brifysgol Bangor a gofynnwn i'r Brifysgol ystyried y datganiad hwn a sylwadau'r adroddiad o ddifri. Rydym yn ddiolchgar fod y Brifysgol yn awyddus i gydweithio a bydd ein drws bob tro'n agored ar gyfer unrhyw drafodaethau.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'n bwysig ein bod ni'n tynnu sylw at fewnbwn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae UMCB yn gwerthfawrogi cyfraniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r Brifysgol yn fawr iawn a'r teimlad yw y dylid gwneud bob ymdrech i sicrhau'r berthynas gref sydd rhwng y brifysgol a'r Coleg. Mae UMCB wedi gweld gohebiaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n nodi'r amodau'n glir. Mae UMCB o'r farn yn gryf y dylid gwneud popeth posib i sicrhau bod y Brifysgol yn sicrhau'r grantiau pynciol sydd wedi'u clustnodi gan y CCC ar gyfer Bangor yn 2019/20. Mae UMCB yn awyddus i weld cydweithrediad effeithiol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn sicrhau perthynas dda i'r dyfodol, a hynny gan fod Prifysgol Bangor yn brif ddarparwr addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru ac yn gyfrifol am 46% o'r niferoedd cenedlaethol sy'n astudio 80 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes

Yn draddodiadol, mae Prifysgol Bangor wedi arwain Cymru o ran darpariaeth y Gymraeg yn y meysydd celfyddydol a'r Dyniaethau. Hoffa UMCB bwysleisio pwysigrwydd cadw hyn yn rhan ganolog o'r astudiaethau. Yn ychwanegol ar hynny, ein dymuniad yw gweld y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech posib i sicrhau fod y cyd-destun Cymreig yn cael eu hanwytho fel rhan naturiol i'r cwricwlwm.

Yn Ysgol y Gyfraith, Ysgol Busnes ac Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth nid oes gofidiau mawr ymysg myfyrwyr ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg. Dywedodd myfyrwyr ymhob ysgol y dylid gwneud bob ymdrech i sicrhau parhad yn yr ychydig o fodiwlau Cymraeg sydd ar gael. Rydym yn cymryd yn ganiataol na fydd effaith ar y ddarpariaeth gan nad yw hynny wedi'u nodi'n yr achosion busnes. Dywedodd myfyrwyr hefyd ei bod hi'n bwysig i'r Ysgolion gydnabod y farchnad yng Nghymru gan fod pwyslais ar farchnata tu hwnt i Gymru yn ganolog i rai o'r trafodaethau.

Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau

Pan gyflwynwyd yr achosion busnes, roedd yr Ysgol Gerddoriaeth a'r Cyfryngau yn faes o bryder mawr i UMCB gan ofidio na fyddai'r Ysgol yn cydymffurfio â Pholisi Iaith y Brifysgol. Yn sgil hyn, daeth myfyrwyr ynghyd mewn grŵp ffocws i godi pryderon a danfonwyd datganiad a cyfres o gwestiynau at Ddeon y Coleg a Phennaeth yr Ysgol (gweler atodiad 1). Mae'r atodiad yn mynegi'n glir beth yw pryderon UMCB a beth yw ein disgwyliadau ni o ran y ddarpariaeth. Aeth Llywydd UMCB i drafod y materion hyn gyda Deon y Coleg a Phennaeth yr Ysgol a chael trafodaethau effeithiol. Daeth i'r amlwg ar ôl y trafodaethau nad oedd y bwriad yn effeithio'n ormodol ar y ddarpariaeth gyda ysgogiad amlwg i gadw hanes cerddoriaeth Cymru. Yn ogystal, dywedodd Pennaeth yr Ysgol na fydd y ddarpariaeth yn anghymesur â'r ddarpariaeth di-gymraeg.

Er hyn, mae'n bwysig nodi bod ein pryder yn parhau oherwydd dyma a gyflwynwyd yn yr achos busnes. Ond, gobeithiwn na fydd yna niwed yn cael eu wneud i'r ddarpariaeth.

Dyma'r egwyddorion craidd a benderfynwyd gan fyfyrwyr,

1. Dylid gwarchod craidd o fodiwlau Cymraeg
2. Dylid gwarchod modiwlau sy'n cynnwys Hanes Cerddoriaeth Gymraeg fel yr unig ganolfan i ddarparu hynny yn y byd.

Mae'n bwysig darllen atodiad 1 i gael y darlun llawn o'n pryderon a'n sylwadau.

Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas

Mae UMCB yn croesawu sawl elfen o'r achos busnes, yn arbennig, cyflwyno rhaglenni newydd. Gobeithiwn y bydd Gwleidyddiaeth Cymru'n cael sylw dyledus wrth lunio'r cwricwlwm. Ym maes cymdeithaseg, mae'n holl bwysig gweld y ddarpariaeth Gymraeg yn parhau.

Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg

Cemeg

Yn amlwg, mae cau adran am gael effeithiau negyddol ar Brifysgol Bangor. Mae UMCB yn unfrydol ei farn gydag adroddiad Undeb Bangor lle mae myfyrwyr o'r farn y dylid ystyried opsiynau eraill. Gan mae Prifysgol Bangor yw unig ddarparwr Cemeg trwy gyfrwng y Gymraeg (sy'n mynd tu hwnt i ofynion statudol) mae UMCB yn bryderus ynghylch cau'r adran a'r effaith a gaiff ar brofiad myfyrwyr.

Nid yw UMCB am ymhelaethu ar hyn gan ein bod ni'n rhannu ein pryderon yn adroddiad Undeb Bangor. Ond, mae ein barn yn glir, dylid ystyried opsiynau eraill cyn gweithredu gan ffactora'r Gymraeg fel un o'r rhesymau dros gadw'r adran.

Coleg y Gwyddorau Dynol

Ysgol Gwyddorau Meddygol

Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg yn yr achos busnes. Er yn dweud hyn, hoffem atgoffa'r Brifysgol ei bod hi'n hanfodol bwysig cynnal y ddarpariaeth Gymraeg gan fod y gallu i hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r prif resymau dros ddatblygu addysg feddygol ym Mangor.

Ysgol Gwyddorau Iechyd

Mae'r achos busnes i'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn ystyried dileu 0.5 CALI o Nyrzio Anabledd Dysgu. Mae UMCB yn pryderu ynghylch y strategaeth hir-dymor wrth ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg. Gofynnwn i'r Brifysgol esbonio'n glir sut fydd y ddarpariaeth yn cael ei staffio a'i strwythuro pe byddid yn gweithredu'r toriad. Gofynnwn hefyd am sicrwydd na fyddai hynny'n arwain at leihad yn y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r myfyrwyr yn poeni ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol mewn maes sydd mor bwysig ar hyn o bryd. Disgwylwn felly gael cynllun manwl yn dangos sut fydd y ddarpariaeth yn cael ei warchod.

Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Mae myfyrwyr UMCB yn pryderu'n fawr ynghylch y maes hwn (Gweler atodiad 2). Eisoed, mae UMCB wedi danfon pryderon a sylwadau at yr Ysgol. Gwrthwynebwn yr achos busnes yn llwyr gan fod risg o golli grant pynciol gwerth £30k y flwyddyn gan y Coleg Cymraeg sy'n golygu colli aelod o staff Cymraeg. Credwn fod hynny yn dangos diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth amlwg o bwysigrwydd y grant sy'n cael ei dderbyn gan y Coleg Cymraeg, mae myfyrwyr yn teimlo'n gryf nad oes synnwyr mewn rhoi'r Ysgol mewn sefyllfa i golli arian grant sylweddol mewn cyfnod ariannol ansefydlog. Mae'r ddarpariaeth yno yn brin fel ag y mae hi gyda myfyrwyr yn dweud na fyddan nhw wedi dod i Fangor oni bai am y cynnig o fodiwlau Cymraeg. Yn yr hinsawdd sydd ohoni yng Nghymru, mae'n allweddol bwysig bod myfyrwyr yn gallu ymarfer Chwaraeon trwy'r Gymraeg.

Gweler yn atodiad 2 ymateb fanylach ar yr achos busnes. Mae Pennaeth yr Ysgol wedi ymateb a bydd Llywydd UMCB yn cynnal trafodaethau gyda'r Ysgol yn y dyfodol agos.

Ysgol Addysg

Ni godwyd unrhyw faterion mawr gan fyfyrwyr Cymraeg oherwydd ymroddiad y Brifysgol at y brosiect CaBan sy'n mynnu'r Gymraeg. Er hyn, gyda nifer o staff a darlithwyr o dan fygythiad yn yr achos busnes arfaethedig hoffem bwysleisio pwysigrwydd sicrhau capasiti dwyieithog. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i hyfforddi'r gweithlu addysg sydd mor allweddol i strategaeth miliwn o siaradwyr Llywodraeth Cymru.

Clo

I gloi, mae gan UMCB farn cryf y dylid gwneud popeth o fewn gallu'r Brifysgol i sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn parhau i fod yn destun o glod i'r Brifysgol. Mae ymrwymiad y Brifysgol tuag at y Gymraeg dros y blynyddoedd wedi bod yn arloesol. Mae'r gwasanaeth y mae'r Brifysgol yn cynnig i Gymru yn amhrisiadwy. Dyma hefyd yw barn Undeb y Myfyrwyr.

Er gwaethaf y toriadau, mae UMCB o'r farn y dylid gwarchod y ddarpariaeth gan fod y Gymraeg yn faes o dwf. Mae drws UMCB yn agored at drafodaeth pellach os fydd y pwyllgor gweithredu'n dangos y parch sy'n ddyledus i'r Iaith Gymraeg.

Atodiad 1

Ymateb UMCB i'r Achos Busnes Dros Newid: Strategaeth Gynaliadwyedd ar gyfer yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau

(At sylw Deon y Coleg, Yr Athro Andrew Edwards a Phennaeth yr Ysgol, Yr Athro Chris Collins)

Ar y 9fed o Ionawr, 2019, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda myfyrwyr Cymraeg sy'n astudio cwrs gradd Cerddoriaeth neu gwrs cydanrhydedd gyda Cherddoriaeth mewn ymateb i'r achos busnes 'Strategaeth gynaliadwyedd ar gyfer yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau'. Trefnwyd y grŵp ffocws gan UMCB ac Undeb Bangor. Cynhaliwyd y grŵp ffocws mewn ymateb i rai pryderon a godwyd gan fyfyrwyr.

Sefydlwyd dwy egwyddor graidd y dylid gwarchod hyd eithaf gallu'r Brifysgol

1. Dylid gwarchod craidd o fodiwlau Cymraeg
2. Dylid gwarchod modiwlau sy'n cynnwys Hanes Cerddoriaeth Gymraeg fel yr unig ganolfan i ddarparu hynny yn y Byd.

Mae'r ysfa dros warchod yr egwyddorion hyn yn amlwg o blith myfyrwyr gyda'r defnydd o'r term amwys, 'Gweithgarwch Creadigol', yn codi cwestiynau ynghylch yr egwyddorion uchod. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r term 'dwyieithog' yn codi cwestiynau pellach ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg.

Gyda Phrifysgol Bangor yn brif ddarparwr Cerddoriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ydi'r brifysgol wedi ystyried y gallai'r Ysgol gollu gafael ar USP?

Dyma rhai cwestiynau a godwyd a gobeithiwn dderbyn ymateb cyn gynted ag y bo'n bosib dan y penawdau canlynol -

1. Cyffredinol
2. Hanes Cerddoriaeth Cymru
3. Arbenigedd
4. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

1. Cyffredinol

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Brifysgol
1. Beth a olygir gan y term 'dwyieithog' wrth gyfeirio at newid modiwlau o fod yn rhai uniaith Gymraeg at fod yn ddwyieithog? (Noder - ym Mholisi Iaith y Brifysgol, mae'n nodi'n glir ni ddylid gwneud unrhyw beth i 'lastwreiddio' modiwlau Cymraeg)	
2. Beth a olygir gan y term 'Gweithgarwch Creadigol'?	
3. Ydi'r Brifysgol wedi ystyried y niwed y bydd hyn yn ei chael ar recriwtio myfyrwyr Cymraeg? A hynny fel y prif ddarparwr, o bell ffordd yng Nghymru.	

2. Hanes Cerddoriaeth Cymru

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Brifysgol
---------------	--------------------

1. Oes yna unrhyw fygythiad i'r ddarpariaeth bresennol o Hanes Cerddoriaeth Cymru?	
2. Ydy'r Brifysgol yn ymrwymo i fod yn Brifysgol unigryw sy'n cynnal yr egwyddor o warchod yr arbenigedd mewn Cerddoriaeth Gymraeg?	
3. Yn dilyn y cwestiwn uchod, os nad ydi hynny'n opsiwn, a fydd y Brifysgol yn ymrwymo i ddarparu arbenigedd ymchwil (traethawd hir, MA neu PhD) yn y maes?	

3. Arbenigedd

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Brifysgol
1. I ba raddau fydd yr effaith o golli arbenigedd mewn meysydd gwahanol ar y Gymraeg e.e. Therapi Cerdd.	

4. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Brifysgol
1. A fydd y Brifysgol yn parhau i sicrhau bod myfyrwyr yn gymwys i dderbyn Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol? (Noder – ni fydd y CCC yn gwarantu modiwlau dwyieithog fel rhai llawn)	
2. Ydych chi wedi mesur effaith y lleihad mewn modiwlau Cymraeg a'r effaith a gaiff ar fyfyrwyr sy'n astudio dan nawdd y CCC?	

Gyda'r Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i'r Brifysgol, gobeithiwn eich bod yn ystyried y materion a chwestiynau uchod o ddifri. Mae'r Brifysgol wedi addo y byddant yn gwarchod y 'profiad myfyrwyr' a gobeithiwn fod y myfyrwyr Cymraeg yn cael pob chwarae teg yn hyn.

Atodiad 2

Ymateb UMCB i'r Achos Busnes Dros Newid: Trawsnewid Fframweithiau Academaidd – Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

(At sylw Deon y Coleg, Yr Athro Nichola Callow a Phennaeth yr Ysgol, Dr Jamie MacDonald)

Ar y 15fed o Ionawr, 2019, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda myfyrwyr Cymraeg sy'n astudio cwrs gradd yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer mewn ymateb i'r achos busnes 'Trawsnewid Fframweithiau Academaidd – Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer.' Trefnwyd y grŵp ffocws gan UMCB ac Undeb Bangor. Cynhaliwyd y grŵp ffocws mewn ymateb i rai pryderon a godwyd gan fyfyrwyr.

Sefydlwyd dwy egwyddor graidd y dylid gwarchod hyd eithaf gallu'r Brifysgol,

1. Dylid gwarchod a chynnal y craidd presennol o greydau cyfrwng Cymraeg o fewn y maes.
2. Dylid gwarchod modiwlau sy'n cynnwys Cymraeg ar draws y ddau brif faes, Ffisioleg a Seicoleg.

Daeth yn amlwg yn y grŵp ffocws bod gofid ynghylch dyfodol y ddarpariaeth Gymraeg yn yr Ysgol hon. Pwysleisiodd y myfyrwyr bwysigrwydd y cwrs yn hinsawdd bresennol Cymru gyda chryn bwyslais ar ffisiotherapi, iechyd meddwl, anableddau ac agweddau o gynorthwyo'r lluoedd arfog. Yn yr oes sydd ohoni, mae'n hanfodol bwysig fod arbenigedd cyfrwng Cymraeg ar gael yn y meysydd hyn. Onid oes dyletswydd ar Brifysgol Bangor, yn y Gymru gyfoes, i sicrhau hyn?

Mae'n debyg nad ydyw'r ddarpariaeth Gymraeg mor gryf â dymuniad y myfyrwyr yn ei chyflwr presennol. A byddai torri ar hyn yn ddim byd ond sarhad ac ymosodiad ar y ddarpariaeth. Mae'n gwbl annerbyniol, mewn ystyr ieithyddol, ond yn ogystal, mewn achos busnes, bod yr Ysgol wedi llwyddo i amlinellu'r risg o golli'r arian grant bloc gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi amlinellu'r risg o wneud colledion ar recriwtio lleol a hynny heb unrhyw awgrym ar sut y mae modd rheoli a lliniaru hyn. I'r iaith, ac mewn byd busnes, sut mae hyn yn gwneud synnwyr? Nid yw ein gofyn yn fawr gan ystyried y byddai'r gost o barhau'r ddarpariaeth yn fychan iawn.

Yn yr Ysgol hon, mae'r datblygiadau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi bod yn destun canmol dros y blynyddoedd ac mae'n ffaith fod yr Ysgol wedi cynnal y twf mwyaf o fyfyrwyr sy'n astudio modylau 40 credyd ar draws y Brifysgol yn anhygoel.

Mae'r ysfa dros warchod yr egwyddorion craidd yn amlwg o blith myfyrwyr a chodwyd cwestiynau teg a rhesymol yn wyneb yr achos busnes. Ac mae UMCB yn rhannu'r pryder gyda'r myfyrwyr ac am wrthwynebu'r toriadau i'r ddarpariaeth Gymraeg.

Gyda Phrifysgol Bangor yn brif ddarparwr Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngogledd Cymru, ydi'r brifysgol wedi ystyried y gallai'r Ysgol golli gafael ar USP? Rydyn ni'n ymwybodol bod y ddarpariaeth ym Mhrifysgol Met Caerdydd yn uchel ond ni ddylid defnyddio hyn fel esgus dros leihau'r Gymraeg ym Mangor. Yn ogystal, dywedodd y myfyrwyr yn y grŵp ffocws eu bod nhw wedi dod i Fangor oherwydd y ddarpariaeth Gymraeg. Pe na fyddai'r ddarpariaeth ar gael y byddan nhw wedi mynd i Brifysgol Met Caerdydd.

Dyma rhai cwestiynau a godwyd a gobeithiwn dderbyn ymateb cyn gynted ag y bo'n bosib dan y penawdau canlyno

2. Cyffredinol

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Brifysgol
---------------	--------------------

4. A ydych chi'n deall eich bod chi am golli trwch o fyfyrwyr Cymraeg os nad ydych chi'n parhau gyda'r ddarpariaeth bresennol? Mynegodd y myfyrwyr na fyddant wedi dod i Fangor i astudio'r pwnc hwn oni bai ei fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.	
5. Yn arwain ar hyn, ydych chi wedi ystyried yr effaith ar ddiwrnodau agored pe na byddai siaradwr Cymraeg yn bresennol?	
6. Ydi'r Brifysgol wedi ystyried y niwed y bydd hyn yn ei gael ar recriwtio myfyrwyr Cymraeg?	
7. Sut mae'r Ysgol yn bwriadu cyflawni ei dyletswyddau statudol o dan fesur y Gymraeg?	
8. Pam ydych chi'n teimlo ei bod hi'n briodol torri mewn maes blaenoriaeth strategol gyda chyn lleied o ddarpariaeth ar gael eisoes?	

3. Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Brifysgol
4. A ydych chi'n gweld synnwyr mewn rhoi'r Ysgol mewn sefyllfa i golli bloc grant sylweddol? Mewn cyfnod ansefydlog yn ariannol, onid ennill arian yw'r nod?	
5. A fydd y Brifysgol yn parhau i sicrhau bod myfyrwyr yn gymwys i dderbyn Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol?	
6. Mae'r Ysgol wedi llwyddo i sicrhau pedair ysgoloriaeth PhD dros y blynyddoedd diwethaf. Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgol i sicrhau goruchwylwyr dwyieithog cymwys yn y ddau brif faes ar gyfer y dyfodol?	

5. Dyletswydd Genedlaethol a Chymdeithasol

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Brifysgol
2. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae'r Llywodraeth yn gweld Chwaraeon, Iechyd Meddwl ac Iechyd fel blaenoriaeth. Yng Nghymru, bydd angen darparu ar gyfer hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan ystyried hyn, ydych chi wedi asesu effaith hyn yn genedlaethol a chymdeithasol?	
3. Ydych chi'n teimlo bod dyletswydd arnom i hybu'r Gymraeg ym myd	

chwaraeon? Yn enwedig ymhlith bobol ifanc gyda sefydliadau fel 5x60 a'r Urdd yn pwysleisio pwysigrwydd hyn.	
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Gyda'r Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i'r Brifysgol, gobeithiwn eich bod yn ystyried y materion a chwestiynau uchod o ddifri. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo y byddant yn gwarchod y 'profiad myfyrwyr' ac yn amlwg mae hyn yn cwmpasu profiad myfyrwyr Cymraeg eu haith.